

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

2 Rhagfyr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1)

a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer y prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth benodol i ymateb i ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron a galluogi swyddogion olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bobl hunanynysu o ganlyniad i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron (B.1.1.529) o COVID-19, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw. Dynodwyd yr amrywiolyn Omicron yn amrywiolyn sy'n peri pryder gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 26 Tachwedd. Mae'r darpariaethau ar gyfer hunanynysu domestig wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n datblygu ac i arafu trosglwyddiad y clefyd yn y gymuned. Mae'r Rheoliadau yn adlewyrchu newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

Ni fydd y ddarpariaeth bresennol sy'n eithrio cysylltiadau agos rhag hunanynysu cyhyd â'u bod wedi cwblhau cwrs llawn o frechlyn wedi'i awdurdodi, wedi cymryd rhan mewn treial brechlyn, yn methu â chael eu brechu am reswm meddygol neu o dan 18 mlwydd oed, yn gymwys os yw'r person yn cael gwybod ei fod wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw.

Effaith y diwygiad hwn yw y bydd unrhyw un yng Nghymru sy'n cael ei hysbysu gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru (neu gyrff penodedig eraill) ei fod wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw, yn gorfod hunanynysu ni waeth beth fo'i oedran na'i statws brechu. Bydd hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Mae'r prif Reoliadau nawr wedi'u diwygio, gan gael effaith o ddechrau 3 Rhagfyr 2021 ymlaen, fel a ganlyn:

- pan fo oedolyn wedi'i hysbysu ei fod wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws sy'n amrywiolyn Omicron, neu a all fod yn amrywiolyn Omicron, rhaid i'r oedolyn hunanynysu am 10 diwrnod (oni bai bod rheoliad 10 o'r prif Reoliadau yn gymwys) ni waeth beth fo'i statws brechu. Mae'r ffordd y mae'r cyfnod hunanynysu 10 diwrnod yn cael ei gyfrifo wedi'i nodi yn rheoliad 8(4) a (5).
- pan fo oedolyn wedi'i hysbysu bod plentyn y mae gan yr oedolyn gyfrifoldeb drosto wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws sy'n amrywiolyn Omicron, neu a all fod yn amrywiolyn Omicron, rhaid i'r plentyn ynysu am 10 diwrnod (oni bai bod rheoliad 10 o'r prif Reoliadau

yn gymwys). Mae'r ffordd y mae'r cyfnod hunanynysu 10 diwrnod yn cael ei gyfrifo wedi'i nodi yn rheoliad newydd 9A(4) a (5).

Mae'r prif Reoliadau hefyd yn cael eu diwygio i egluro bod "swyddog olrhain cysylltiadau" yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fel y cânt hysbysu pobl am ganlyniadau profion positif.

5. Y cefndir polisi

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r amrywiolyn Omicron o COVID-19, a ganfuwyd gyntaf mewn gwledydd yn neheudir Affrica o 23 Tachwedd 2021 ymlaen ac a ddynodwyd yn amrywiolyn sy'n peri pryder gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 26 Tachwedd. Mae achosion nawr wedi'u canfod mewn gwledydd Ewropeaidd, gan gynnwys sawl achos yn y DU.

Mae gan yr amrywiolyn Omicron 32 o fwtaniadau yn y protein sbigyn ac mae Grŵp Technegol Sefydliad Iechyd y Byd ar Amrywiolynnau wedi'i ddynodi'n amrywiolyn Blaenoriaeth Uchel lawn. Golyga hyn y gall beri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd. Mae data cychwynnol yn awgrymu y gall yr amrywiolyn hwn beri risg sylweddol i'r DU. Mae nifer o fwtaniadau mewn lleoliadau allweddol yn y genom, sy'n awgrymu newidiadau posibl mewn trosglwyddadwyedd ac effeithiolrwydd brechlynnau.

Nid yw eithriadau blaenorol yn gymwys i'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw. Diben hyn yw lleihau trosglwyddiad yr amrywiolyn cymaint â phosibl i ddiogelu iechyd y cyhoedd tra mae data pellach yn cael eu casglu a'u hastudio ynglŷn ag effeithiolrwydd brechlynnau a thriniaethau yn erbyn yr amrywiolyn hwn. Pan nodir bod rhywun wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn, neu ag achos lle y mae amheuaeth ohono, bydd yn cael ei hysbysu bod rhaid iddo hunanynysu. Bydd hyn am yr un cyfnod ac yn cael ei gyfrifo yn yr un ffordd â'r dull presennol ar gyfer cysylltiadau agos eraill nad ydynt wedi'u heithrio. Bydd achosion wedi'u cadarnhau neu achosion lle y mae amheuaeth yn cael eu nodi drwy brofion moleciwlaidd (gan gynnwys drwy brofion PCR, genoteipio neu ddilyniannu).

6. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus ar fyrder, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.